

y Gaer Interpretation Project for Powys CC
English to Welsh translation request No 16

| English | Cymraeg |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Int202 DL07 | |
| School bell | Cloch yr ysgol |
| This brass handbell comes from St David's Convent School in Brecon, which closed in 1993. The ringing of the school bell signalled the start of the school day when the children would line up in the playground ready for the day's lessons. | Daw'r gloch bres hon o Ysgol Lleiany Dewi Sant yn Aberhonddu, a gaeodd ym 1993. Roedd canu cloch yr ysgol yn arwydd o ddechrau'r diwrnod ysgol pan fyddai'r plant yn sefyll mewn rhes ar yr iard yn barod am wersi'r dydd. |
| Int203 DL07 | |
| Toy timber carriage | Cerbyd pren tegan |
| This toy horse-drawn carriage for hauling timber was bought in Brecon around 1930. A toy like this would have been expensive for its time. Horses are still used to pull felled trees in modern forestry, especially in difficult terrain. It is a way of protecting the local environment. | Prynwyd y cerbyd tegan hwn oedd yn cael ei lusgo gan geffyl ar gyfer cludo coed yn Aberhonddu tua 1930. Byddai tegan fel hwn wedi bod yn ddrud ar gyfer y cyfnod. Mae ceffylau yn dal i gael eu defnyddio i dynnu coed sydd wedi'u torri mewn coedwigaeth fodern, yn enwedig mewn tir anodd. Mae'n ffordd o ddiogelu'r amgylchedd lleol. |
| Int204 DL07 | |
| The Silver Bullet | Y Fwled Arian |
| The Silver Bullet was a game of skill produced during the First World War. The aim was to manoeuvre a small ball-bearing or silver bullet, along a route called 'The Road to Berlin'. This is an early form of war memorabilia, representing a rapid route to victory on the Western Front. | Roedd y Fwled Arian yn gêm o sgil a gynhyrchwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Y nod oedd symud bwled fach arian ar hyd llwybr o'r enw 'Y Ffordd i Ferlin'. Math cynnar o femorabilia rhyfel yw hwn, yn cynrychioli llwybr cyflym i fuddugoliaeth ar Ffrynt y Gorllewin. |
| Int205 DL07 | |
| Welsh doll | Doli Gymreig |
| This doll in Welsh costume probably dates to the early 20 th Century. Its face and hands are made from a kind of porcelain (bisque). The traditional costume dates from the previous century, with a flannel gown ('betgwn' in Welsh) overlaid with an apron and shawl. | Mae'n debyg bod y ddoli hon mewn gwisg Gymreig yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 20fed ganrif. Mae ei hwyneb a'i dwylo wedi'u gwneud o fath o borslen (bisque). Mae'r wisg draddodiadol yn dyddio o'r ganrif flaenorol, gyda gwn wlanen ('betgwn') wedi'i gorchuddio â ffedog a siôl. |

| Int206 DL07 | |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Model stagecoach | Model o goets fawr |
| This is a cardboard model of the stagecoach which ran between Brecon and Builth Wells. Stagecoaches first appeared on Welsh roads in the early 16th century, but by about 1800 major English and Welsh towns had been linked by Royal Mail stagecoach services. It was called a stagecoach because it travelled in 'stages' of 10-15 miles. | Model cardbord o'r goets fawr a oedd yn teithio rhwng Aberhonddu a Llanfair-ym-Muallt yw hwn. Ymddangosodd y goets fawr am y tro cyntaf ar ffyrdd Cymru yn gynnar yn yr 16eg ganrif, ond erbyn tua 1800 roedd prif drefi Cymru a Lloegr wedi cael eu cysylltu gan wasanaethau coets fawr y Post Brenhinol. Fe'i gelwid yn <i>stagecoach</i> yn Saesneg oherwydd ei bod yn teithio mewn 'camau' o 10-15 milltir ar y tro. |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| Submitted by: Liz Bickerton | Date: 08/01/2020 |
| WORDS 559 | |
| Completed by: | |